Rhif cwmni / company number: 14227941

Cyfarfod Bwrdd | Board meeting
03/04/25 – Tramshed Tech, Caerdydd
09:30-13:30

Cofnodion a chamau gweithredu | Minutes and actions

Yn bresennol | In attendance:

Adnodd: Gethin Davies, Cadeirydd | Chair (GD); Mair Gwynant, Cadeirydd ARAC Chair (MG); Natalie Jones (NJ); Huw Jones (HJ); Sioned Roberts (SR)
Emyr George, Prif Weithredwr | Chief Executive (EG); Kirsty Davies, Cyfarwyddwr Gwasanethau Corfforaethol | Director of Corporate Services (KD); Lleucu Siencyn, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni | Director of Strategy and Delivery (LlS); Branwen Edwards (BE)

Partneriaid | Partners: Dan Sargent a Holly Ingram, Blue Stag

Eitem ar yr agenda *Agenda item*	Crynodeb o'r drafodaeth a phwyntiau gweithredu	Summary of discussion and action points
1.Croeso ac ymddiheuriadau Welcome and apologies	Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Nicola Wood a Lesley Bush. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Siwan Jones a Pat McCarthy o Lywodraeth Cymru.	The Chair welcomed all attendees to the meeting. Apologies were noted from Nicola Wood and Lesley Bush. Apologies were also noted from Siwan Jones and Pat McCarthy from WG.
2. Datgan buddiannau Declaration of interest	Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw fuddiannau wedi'u datgan cyn y cyfarfod. Soniodd un aelod am waith roedd yn ei wneud i Atebol, ac mae hynny wedi'i gofnodi eisoes ar y gofrestr. Soniodd	The Chair noted that no conflict of interests had been declared in advance of the meeting. One member noted ongoing work with Atebol, previously recorded on the register. Another member

	aelod arall am waith roedd yn ei wneud ar brosiectau Rhyngom a'r Map Rhyngweithiol. Penderfynwyd nad oedd y buddiannau hyn yn achosi gwrthdaro, ac y gallai'r naill aelod a'r llall barhau i gymryd rhan yn y cyfarfod.	noted ongoing work on the Rhyngom and Map Rhyngweithiol projects. It was determined that these interests were not deemed to be conflicting, and both members could proceed with the meeting.
3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf Minutes of previous meeting	Cytunodd y Bwrdd fod y cofnodion yn gofnod cywir a gwir o'r trafodaethau, gan gynnwys cofnodion yr eitem gaeedig.	The Board agreed that the minutes were a true and accurate record of discussions, including minutes of the closed item.
4. Diweddariad gan y Cadeirydd Update from the Chair	Nododd GD y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a ddaeth i law ar 3 Mawrth, yn diolch i Adnodd am y cyfle i gwrdd yn yr hydref, yn cydnabod y cynnydd a wnaed eisoes, ac yn diolch i Adnodd am rannu'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol. Esboniodd GD ei fod yn ddiweddar wedi bod i gyfarfod o Fwrdd Cymwysterau Cymru fel arsylwr, er mwyn cael profiad o sut roedd Byrddau eraill yn gweithredu. Dywedodd fod yr aelodau'n teimlo bod cwrdd wyneb yn wyneb yn fuddiol. Roedd Cymwysterau Cymru hefyd yn cynnal diwrnod datblygu blynyddol i'r Bwrdd, yr un pryd ag un o'r cyfarfodydd oedd wedi'u trefnu. Cynhaliwyd adolygiad blynyddol GD â'r Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050, ar 25 Mawrth 2025. Bydd cyfarfodydd rheoli perfformiad aelodau'r Bwrdd yn cael eu	GD noted the letter from the Cabinet Secretary for Education, received on 3 March thanking Adnodd for the opportunity to meet in the Autumn, acknowledging the progress already made, and thanking Adnodd for sharing the Annual Progress Report. GD explained that he recently attended a Qualifications Wales Board meeting as an observer, to gain experience of how other Boards operate. He noted the benefits felt by the members of meeting face to face. QW also held an annual Board development day alongside one of its scheduled Board meetings. GD's annual review with the Deputy Director, Cymraeg 2050 had taken place on 25 March 2025. Board member performance management meetings will take

	cynnal drwy Teams. Bydd dyddiadau posibl yn cael eu hanfon drwy e-bost. Cam Gweithredu: Anfon dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfodydd rheoli perfformiad. Esboniodd GD y bydd tîm partneriaeth Adnodd yn trosglwyddo o Cymraeg 2050 i Is-adran y Cwricwlwm ac Asesu. Roedd e-bost wedi dod i law gan Siwan Jones a Bethan Webb (Cymraeg 2050) yn diolch i aelodau'r Bwrdd am eu hymroddiad a'u cefnogaeth yn ystod y broses o sefydlu Adnodd. Cam Gweithredu: GD i ysgrifennu at is-adran Cymraeg 2050 i ddiolch yn ffurfiol am y cymorth a roddwyd fel rhan o dîm partneriaeth Adnodd yn ystod y broses sefydlu a'r flwyddyn weithredu gyntaf. Cam Gweithredu: Gofyn am gopi o strwythur staffio Is-adran y Cwricwlwm ac Asesu ar ran y Bwrdd.	place via Teams. Potential dates will be circulated by email. Action: Circulate potential dates for performance management meetings. GD explained that Adnodd's partnership team will be transferred from Cymraeg 2050 to the Curriculum and Assessment Division. An email had been received from Siwan Jones and Bethan Webb (Cymraeg 2050) to thank Board members for their dedication and support during the initial set-up of Adnodd. Action: GD to write to Cymraeg 2050 division to formally thank for the support provided as Adnodd's partnership team, during the establishment and the first year of operation. Action: Request a copy of the Curriculum and Assessment Division's staffing structure on behalf of the Board.
5. Diweddariad gan Gadeirydd ARAC Update by Chair of ARAC	Dywedodd MG fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) wedi cwrdd ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Cafwyd un cyfarfod i drafod polisïau adnoddau dynol ac un arall i drafod materion cyffredinol ARAC.	MG noted that ARAC had met twice since the last Board meeting. Once to discuss HR policies and once to discuss standard ARAC matters. The key points to note from the full ARAC meeting on 17 March 2025:

	Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi o gyfarfod llawn ARAC ar 17 Mawrth 2025: <u>Archwilio</u> Cafodd ARAC gyfarfod â'r archwilwyr mewnol, ac mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, Cytundeb Lefel Gwasanaeth a Siarter Archwilio wedi cael eu llofnodi. Bydd yr archwiliad cychwynnol yn Chwarter 1 2025/26 yn edrych ar lywodraethu. Bydd yn rhoi digon o wybodaeth i alluogi'r tîm archwilio i roi barn yr archwilwyr ar gyfer adroddiad blynyddol 2024/25. <u>Risgiau</u> Gan gyfeirio at y gofrestr risg, dywedodd MG fod cyllideb y costau gweithredol yn ddigonol i fwrw ymlaen â'r ail rownd recriwtio yn 25/26, ond y dylid ychwanegu risg newydd yn ymwneud â pharhad a'r model cyllido. Dywedodd MG fod bwriad i gadw golwg ar y risg o ran TG. Dywedwyd bod gwaith yn cael ei wneud i gael achrediad Cyber Essentials Plus, ac y bydd ARAC yn cynnal archwiliad dwfn o'r risg hon yn ystod ei gyfarfod llawn nesaf ym mis Mehefin. Roedd ARAC wedi cytuno i gadw golwg ofalus yn y chwarter cyntaf ar y risg a oedd yn ymwneud â chomisiynu, a nodwyd pwysigrwydd amseru taliadau a cherrig milltir ar gyfer cyflawni.	<u>Audit</u> ARAC had met with the internal auditors, and an MoU, SLA and Audit Charter have been signed. The initial audit in Q1 2025/26 will look at governance and will offer the audit team sufficient insight to provide an audit opinion for the 2024/25 annual report. <u>Risk</u> Referring to the risk register, MG noted that although the operational costs budget is sufficient to proceed with the second round of recruitment in 25/26, a new risk should be added in relation to continuity and the funding model. MG noted that the IT risk is to be kept under review. It was noted that work is ongoing to achieve Cyber Essentials Plus accreditation, and that ARAC will conduct a deep dive into this risk during its next full meeting in June. ARAC had agreed to keep the commissioning risk closely under review during the first quarter and noted the importance of scheduling payment and delivery milestones. <u>Policies and internal controls</u> Work is ongoing, and good progress is being made.

	<u>Polisïau a dulliau rheoli mewnol</u> Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, ac mae cynnydd da'n cael ei wneud. <u>Cyllid</u> Roedd ARAC wedi craffu ar adroddiad Chwarter 3 ac ar gyllideb blwyddyn ariannol 2025-26. Nododd y Pwyllgor fod cyllid y sefydliad yn cael ei reoli'n dda. Roedd sicrwydd wedi'i roi bod y risg o danwariant sy'n fwy na'r 2% y gellir ei gario drosodd yn fach iawn. Roedd sicrwydd wedi'i roi bod aelodau'r tîm yn gallu ymdopi ar hyn o bryd â'r pwysau sydd arnyn nhw. Blwyddyn ariannol 25-26 – roedd sicrwydd wedi'i roi bod digon o gyllid i dalu'r costau gweithredol. <u>Holiadur effeithiolrwydd y Pwyllgor</u> Darparodd MG drosolwg o'r prif ganfyddiadau. **Cam Gweithredu: Gwahodd aelodau'r Bwrdd i fynegi diddordeb mewn mynychu cyfarfodydd ARAC fel arsylwyr.**	<u>Finance</u> Q3 report and FY2025-26 budget had been scrutinised by ARAC. The Committee noted that finance is being well controlled. Assurance had been provided that the risk of underspend over the 2% carry over allowance is minimal. Assurance had been received that pressures on team members is currently manageable. FY25-26 – assurance had been received that there is adequate funding to cover operational costs. <u>Committee effectiveness questionnaire</u> MG provided an overview of the main findings. **Action: Invite Board members to declare their interest in attending ARAC meetings as an observer.**
6. Diweddariad y Prif Weithredwr	Dywedodd EG y bydd Adnodd, yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Strategol Adnoddau Addysg, yn gweithio gyda	EG noted that at the next meeting of the Education Resources Strategic Board (ERSB), Adnodd will work

Chief Executive Update	Llywodraeth Cymru i adolygu'r modd yr aethpwyd ati eleni i osod cyllideb ac amcanion Adnodd. Byddai hynny'n helpu i wneud y broses o benderfynu ar gyllid a blaenoriaethau'n fwy effeithlon ac amserol y flwyddyn nesaf. Byddai hyn yn golygu bod modd mynd ati'n gynharach i gynllunio a drafftio cyllideb a chynllun gweithredol blwyddyn ariannol 26-27, gan allu ei gyflwyno i'r Bwrdd ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd EG yn cwrdd â Dirprwy Gyfarwyddwyr yr Adran Addysg bob hanner tymor i drafod a chytuno ar y pwyntiau i'w codi yn y Bwrdd Strategol Adnoddau Addysg ymlaen llaw. Gan gyfeirio at y corff dysgu proffesiynol newydd, y mae disgwyl iddo fod yn weithredol o dymor yr hydref 2025, dywedodd EG fod y trafodaethau'n mynd rhagddyn nhw â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd Adnodd yn cydweithio'n effeithiol â'r sefydliad. Cam Gweithredu: Rhoi diweddariad i'r Bwrdd am gyfansoddiad y corff newydd, ac am ei effaith ar Adnodd, yn y cyfarfod nesaf. Cam Gweithredu: Cysylltu â'r pleidiau gwleidyddol gydag awgrym o eiriad am gylch gwaith Adnodd i'w gynnwys yn eu maniffestos.	with WG to review the approach taken this year to setting Adnodd's budget and objectives, to enable a more efficient and timely process for next year's funding and priorities. This would allow for early planning and drafting of the FY26-27 budget and operational plan to bring to the Board at this point in the next financial year. EG will meet with the Education Department's Deputy Directors on a half-termly basis to discuss and agree on points to be raised at ERSB in advance. Referring to the new professional learning body, due to be operational from Autumn 2025, EG noted that discussions are ongoing with WG officers in relation to how Adnodd will collaborate effectively with the organisation. Action: Update the Board regarding the composition of the new body, and its impact on Adnodd at the next meeting. Action: Approach the political parties with suggested wording of Adnodd's remit to include in their manifestos.

	Strategaeth Adnodd Dywedodd EG y bydd Adnodd yn cysylltu ag Ysgrifennydd y Cabinet i drafod lansio'r strategaeth rhwng y dyddiad lansio swyddogol a'r haf. Comisiynu Mae'r tîm Comisiynu wedi canfod a chomisiynu cyfanswm o saith prosiect llythrennedd tymor byr, sy'n canolbwyntio ar elfennau penodol, ac a fydd yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon er mwyn manteisio'n llawn ar y cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn sydd wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru. Cyfathrebu ac Ymgysylltu Mae'r Tîm Gweithredol a'r rheolwyr yn dal i gwrdd yn rheolaidd ag amrywiaeth o randdeiliaid a chyflenwyr posibl, ac yn dal i fynychu cynadleddau, digwyddiadau a seminarau. Drwy gyfleoedd hyfforddiant a datblygu proffesiynol, mae'r tîm wedi creu cysylltiadau â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, a hynny'n hwb i uchelgais Adnodd i gydweithio mewn partneriaeth â'r holl sector cyhoeddus yng Nghymru. Datgan rhagenwau	Adnodd Strategy EG noted that Adnodd will engage with the Cabinet Secretary in relation to the launch of the strategy between the official launch date and the summer. Commissioning The Commissioning team have identified and commissioned a total of seven, focused and short-term literacy projects that will complete by the end of this financial year to take full advantage of the additional in-year funding made available by WG. Communications and Engagement The Executive Team and managers continue to meet regularly with a range of stakeholders and potential suppliers and to attend conferences, events and seminars. Through training and professional development opportunities, the team have established contacts within other public sector organisations, which supports Adnodd's ambition to collaborate in partnership across the public sector in Wales. Declaring pronouns

	Nid oedd gan yr aelodau ymholiadau am y cynnig yn y papur i ychwanegu is-adran at y polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. *Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd i gynnwys is-adran am ragenwau yn y polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.* Cam Gweithredu: Diweddaru'r polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a rhoi canllawiau a llofnod e-bost i aelodau'r Bwrdd.	No queries were raised by members regarding the proposal in the paper to add a subsection to the current Equality, Diversity and Inclusion policy *Decision: The Board agreed to include a Pronouns subsection within the Equality Diversity and Inclusion policy.* Action: Update EDI Policy and circulate guidance and email signature to Board members.
7. Diweddariad y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni: Comisiynu Director of Strategy and Delivery Update: Commissioning	Soniodd LlS am fformat diwygiedig y daenlen Comisiynu, ar ôl cael adborth yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd. Mae'r daenlen bellach yn cynnwys: Disgrifiadau byr o brosiectau • Y meysydd dysgu • Cam(au) cynnydd • Gwerth ariannol Gan gyfeirio at y papur, rhoddodd LlS ddiweddariad am y gwaith comisiynu: <u>Ceisiadau am Gynigion</u> Cafwyd ceisiadau gan 5 o gyflenwyr, gydag un cyflenwr yn cyflwyno 2 gynnig. Ni chafwyd ceisiadau o ran yr adnoddau i	LlS noted the revised format of the Commissioning spreadsheet, following feedback at the previous Board meeting. The spreadsheet now includes: Brief project descriptions • Areas of learning • Progression step(s) Monetary value Referring to the paper, LlS provided an update on the commissioning work: <u>Requests for Proposal (RFP)</u> Applications were received from 5 suppliers, with one supplier submitting 2 proposals. No applications were

	gefnogi Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Rhoddwyd contractau i 4 o gyflenwyr, gydag 1 cyflenwr yn cael 2 gontract. <u>Grantiau ychwanegol ar gyfer prosiectau llythrennedd</u> Soniodd LlS am y cydweithio llwyddiannus rhwng y Tîm Comisiynu a chyflenwyr i sicrhau y bydd y prosiectau a gomisiynwyd gyda chyllid yn ystod y flwyddyn yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. <u>Sioe Deithiol Ar-lein Adnodd</u> Mae'r tîm wedi trefnu cyfres o sioeau teithiol ar-lein i ymarferwyr a chyhoeddwyr, ac mae 80 o gyfranogwyr wedi cofrestru. <u>Amserlen Hanes Cymru</u> Dywedodd LlS fod y gwaith cynllunio'n mynd rhagddo, ac awgrymodd y gellid rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Cam Gweithredu: Rhoi diweddariad am Amserlen Hanes Cymru yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. <u>Cynlluniau comisiynu 25-26</u>	received for resources to support the Expressive Arts AoLE. Contracts were awarded to 4 suppliers, with 1 supplier receiving 2 contracts. <u>Additional grants for literacy projects</u> LlS noted the successful collaboration between the Commissioning Team and suppliers to ensure that the projects commissioned with in-year funding will complete by the end of the financial year. <u>Adnodd Online Roadshow</u> The team has scheduled a series of online roadshows for practitioners and publishers, with 80 participants having registered. <u>Welsh History Timeline</u> LlS noted that the planning work is ongoing and suggested updating the Board at its next meeting in July. Action: Provide an update in relation to Welsh History Timeline at the next Board meeting. <u>Commissioning plans for 25-26</u>

	Soniodd LlS am y gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ac am sut y bydd hyn yn dylanwadu ar gynlluniau blwyddyn ariannol 25-26. Bydd y tîm yn ystyried cadw syniadau wrth gefn, ar sail blaenoriaethau strategol, er mwyn gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i gyllid a ddaw i law yn ystod y flwyddyn. <u>Materion a godwyd</u> Gan gyfeirio at ba mor gyfyngedig oedd y goddefiant o 2% ar gyfer tanwariant, dywedodd EG y bydd hyn yn cael ei drafod â Llywodraeth Cymru wrth adolygu'r ddogfen fframwaith. Fel sefydliad sy'n comisiynu, byddai'n fanteisiol cael y goddefiant mwyaf posibl er mwyn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd wrth reoli portffolio cymhleth ac eang o brosiectau. Cam Gweithredu: Cynnwys dolen i adnoddau digidol yn y daenlen gomisiynu. Cam Gweithredu: Darparu detholiad o adnoddau a gomisiynwyd gan Adnodd yng nghyfarfodydd wyneb yn wyneb y Bwrdd. Cam Gweithredu: Rhannu calendr o'r digwyddiadau y mae Adnodd yn eu mynychu ag aelodau'r Bwrdd.	LIS noted the lessons learned during the current financial year, and how this will influence the plans for FY25-26. The team will consider keeping ideas aside, based on strategic priorities, to be able to react quickly and effectively to additional in-year funding. <u>Matters raised</u> Referring to the tight tolerance of 2% underspend allowance, EG noted that this will be raised with WG whilst reviewing the framework document. As a commissioning organisation it would be advantageous to be granted the highest possible tolerance to provide some flexibility in managing a complex and broad portfolio of projects. Action: Include links to digital resources from commissioning spreadsheet. Action: Provide a selection of resources commissioned by Adnodd at in person Board meetings. Action: Circulate a calendar of events that Adnodd is attending to Board members.
8. Adnoddau Dynol	<u>Adnoddau Dynol</u>	<u>Human Resources</u>

Human Resources	Esboniodd KD fod ARAC wedi cytuno yn ei gyfarfod diwethaf ym mis Mawrth i gynnwys dangosfwrdd adnoddau dynol fel rhan o'r diweddariad corfforaethol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, a hwnnw'n cynnwys gwybodaeth am bethau fel staff newydd, staff sydd wedi gadael, a'r hyfforddiant sydd wedi'i roi. Nodwyd bod porth adnoddau dynol Staffology wedi'i gyflwyno i holl aelodau'r staff, a'i fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg. <u>Polisïau adnoddau dynol</u> Cyfarfu ARAC ar 3 Mawrth i adolygu a chymeradwyo'r gyfres ddiweddaraf o bolisïau adnoddau dynol. Roedd y polisïau hyn wedi'u rhannu ag aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth. Roedd ARAC wedi argymell y Polisi Iechyd a Diogelwch i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. *Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Iechyd a Diogelwch.* Bydd cyfarfod arall o ARAC yn cael ei gynnal ym mis Mehefin i adolygu'r gyfres olaf o bolisïau adnoddau dynol sydd wedi'u rhestru yn y papur.	KD explained that ARAC had agreed at its last meeting in March to include a HR dashboard as part of the corporate update at each Board meeting to include information such as new starters, leavers and training undertaken. It was noted that the Staffology HR portal had been rolled out to all staff members and is available in Welsh and English. <u>HR policies</u> ARAC met on 3 March to review and approve the latest tranche of HR policies. These policies had been circulated to Board members for information. ARAC had recommended the Health and Safety Policy for Board approval. *Decision: The Board approved the Health and Safety Policy.* A further ARAC meeting will be held in June to review the final tranche of HR policies listed within the paper. <u>Staff forum</u>

	<u>Fforwm y staff</u> Yn dilyn y papur a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr, gofynnwyd am farn y staff ynghylch cael eu cynrychioli drwy undeb enwebedig neu drwy fforwm staff. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar 11 Ebrill lle bydd Darwin Gray yn cyflwyno'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r ddau opsiwn i'r tîm. Bydd y staff yn bwrw ymlaen â phenderfyniad y mwyafrif. Disgwylir y bydd y dull ymgynghori'n cael ei gyflwyno cyn diwedd mis Mai, a bydd y Bwrdd yn cael adroddiad am hyn ym mis Gorffennaf. Awgrymodd KD y gellid gwahodd aelod o'r Bwrdd i fynychu rhai o gyfarfodydd fforwm y staff pan fyddai materion yn berthnasol i'r Bwrdd. <u>Y cynllun recriwtio</u> Mae'r cyllid arfaethedig ar gyfer y costau gweithredu yn ddigonol i Adnodd ddechrau ail gam y broses recriwtio er mwyn codi nifer staff Adnodd i 15 yn ystod 2025/26. Cynigiwyd y dylai'r broses recriwtio hon gael ei chynnal mewn 2 don, gyda'r swyddi canlynol yn y don gyntaf: • Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol • Corfforaethol • Comisiynu – 1 Rheolwr arall (gradd 4) ac 1 swyddog arall (gradd 2)	Further to the paper presented at the December Board meeting, staff views on representation via a nominated union or through a staff forum had been sought. A meeting will take place on 11 April for Darwin Gray to present the considerations of both options to the team. The majority decision will be taken forward. It is expected that the consultation mechanism will be implemented before the end of May and will be reported to the Board in July. KD suggested that a Board member may be invited to attend some staff forum meetings for matters relevant to the Board. <u>Recruitment plan</u> The proposed operational costs funding is sufficient for Adnodd to begin the second phase of recruitment to increase Adnodd's headcount to 15 during 2025/26. It was proposed that the recruitment takes place over 2 waves, with the following roles in the first wave: • Communications and Strategic Engagement • Corporate • Commissioning – 1 additional Manager (grade 4) and 1 additional officer (grade 2) *Decision: The Board agreed to the minor changes to the staffing structure for recruitment during wave 1.*

	Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd ar y mân newidiadau i'r strwythur staffio wrth recriwtio yn nhon 1. <u>Risgiau</u> Yng nghyfarfod ARAC ar 17 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Polisi Rheoli Risgiau gael ei argymell i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. *Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Rheoli Risgiau.* Nodwyd y dylid parhau i adolygu'r polisi'n gyson ac y byddai'n cael ei ddiweddaru wrth i weithgarwch Adnodd ehangu ac wrth i'r rhaglen archwilio fewnol ddatblygu. Nodwyd bod Tîm Gweithredol Adnodd wedi adolygu'r gofrestr risgiau a'r camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol ARAC a'r Bwrdd, a'i fod wedi: • Archifo'r hen gofrestr risgiau • Diweddaru categorïau'r risgiau fel eu bod yn cyd-fynd â'r rheini a geir yn y Polisi Rheoli Risgiau • Ychwanegu colofn ar gyfer rheoli risgiau	<u>Risk</u> At the ARAC meeting on 17 March, the Committee agreed that the Risk Management Policy is recommended to Board for approval. *Decision: The Board approved the Risk Management Policy.* It was noted that the policy be kept under active review and will be updated as Adnodd's activity expands, and the programme of internal audit develops. It was noted that Adnodd's Executive Team had reviewed the risk register and actions from previous ARAC and Board meetings and had: • Archived the old risk register • Updated risk categories to align with those set out in the Risk management policy • Added a risk management column Action: Schedule a detailed review of the risk register at the next Board meeting and repeat on an annual basis. <u>Quarter 3 finance report</u>

	Cam Gweithredu: Trefnu adolygiad manwl o'r gofrestr risgiau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd a gwneud hyn yn flynyddol. <u>Adroddiad cyllid Chwarter 3</u> Gan gyfeirio at adroddiad cyllid Chwarter 3 a geir yn y papurau sydd er gwybodaeth i'r Bwrdd, cyfeiriodd KD at y prif bwyntiau i'w hystyried. <u>Archwilio mewnol</u> Cynhaliwyd cyfarfod ag archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror, lle cytunwyd y bydd dau archwiliad yn cael eu cynnal ym mhob blwyddyn ariannol (yn Chwarter 1 a Chwarter 3) gyda gwaith dilynol a gwaith cynllunio yn cael ei wneud yn Chwarter 4. Bydd yr archwiliad cychwynnol yn Chwarter 1 25/26 yn edrych ar lywodraethu ac yn rhoi digon o wybodaeth i'r tîm archwilio allu rhoi barn gan archwilwyr ar gyfer adroddiad blynyddol 24/25. <u>Archwilio allanol</u> Roedd Archwilio Cymru wedi dweud ei bod yn annhebygol y bydd adroddiad ISA260 yn barod i'w gyflwyno i ARAC ym mis Hydref. Mae hi'n debygol felly y bydd cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd yn cael ei drefnu ddiwedd mis Tachwedd/ddechrau mis Rhagfyr i glywed yr adroddiad.	Referring to the Quarter 3 finance report included in the papers for information, KD noted the key points for consideration. <u>Internal audit</u> An inception meeting was held with WG internal auditors in February. It was agreed that two audits will be carried out each financial year (in Q1 and Q3) with follow-up and planning work taking place in Q4. The initial audit in Q1 25/26 will look at governance and will offer the audit team sufficient insight to provide an audit opinion for the 24/25 annual report <u>External audit</u> Audit Wales had noted that it is unlikely that the ISA260 report will be ready to report to ARAC in October. It is therefore likely that an additional Board meeting will be scheduled in late November/early December to hear the report. **Action: Schedule an additional Board meeting to hear ISA260 report.**

	Cam Gweithredu: Trefnu cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd i glywed adroddiad ISA260.	
9. Strategaeth Adnodd Adnodd Strategy	Dywedodd LlS fod datblygu Strategaeth Adnodd 2025-2028 wedi cynnwys sesiynau rhithwir a sesiynau wyneb yn wyneb â'r Bwrdd a'r staff rhwng mis Medi 2024 a mis Chwefror 2025. Mae'r ddogfen hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau ac argymhellion gwaith ymchwil cyntaf Miller Research i Adnodd, ynghyd â chanfyddiadau cynnar y gwaith ymchwil i brofiad defnyddwyr sydd wrthi'n cael ei wneud. Roedd ffrindiau beirniadol, gan gynnwys yr Athro Charlotte Williams, swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, swyddogion Estyn, a swyddogion y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cael eu gwahodd i roi sylwadau am y drafftiau cynnar. Bydd y Strategaeth yn para am dair blynedd. Mae Adnodd yn sefydliad newydd mewn sector sy'n esblygu o hyd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i werthuso ein gwerthoedd a'n ffyrdd o weithio, gan barhau i wrando ar y dystiolaeth a'r adborth a gawn gan y sector. <u>Y camau nesaf:</u>	LIS noted that developing Adnodd's Strategy 2025-2028 had included virtual and in-person sessions with the Board and staff during the period September 2024 to February 2025. The document also reflects the findings and recommendations of Miller Research's first research for Adnodd, and early findings of the user experience research currently taking place. Critical friends, including Professor Charlotte Williams, the office of the Future Generations Commissioner, the office of the Welsh Language Commissioner, officials from Estyn and y Ganolfan Dysgu Cymraeg had been invited to provide feedback on early drafts. The Strategy term is set at 3 years. Adnodd is a new organisation within a sector that is constantly evolving. This will provide opportunity to evaluate our values and ways of working, whilst continuing to listen to the evidence and feedback provided by the sector. <u>Next steps:</u>

	• Ymwneud ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg • Dylunio – rhyngweithiol, gweledol, hawdd i'w ddarllen a'i ddeall • Lansiad swyddogol yn Eisteddfod yr Urdd Cam Gweithredu: Diwygio'r Strategaeth i adlewyrchu'r adborth a gafwyd yn y cyfarfod, a rhannu'r drafft terfynol â'r aelodau.	• Engage with the Cabinet Secretary for Education • Design – interactive, visual, easy to read and understand • Official launch at the Urdd Eisteddfod Action: Revise the Strategy to reflect the feedback received at the meeting. and share the final draft with members.
10. Cyllideb 2025-26 2025-26 budget	Gan gyfeirio at y llythyr ariannu drafft sydd yn y papurau, esboniodd KD fod hwnnw'n disgwyl i gael ei gymeradwyo ar hyn o bryd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Ers i ARAC gyfarfod ar 17 Mawrth, roedd cyllideb ddiwygiedig wedi'i chynnwys yn y papurau, sy'n dangos y cyllid ychwanegol sydd wedi'i roi gan yr is-adran ADY. <u>Costau gweithredol</u> Mae'r cyllid yn ddigonol i dalu am y gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio yn 2025/26, gan gynnwys: • Recriwtio • Cyfathrebu a marchnata • Gwasanaethau ariannol • Archwilio • Caffael • Digwyddiadau	Referring to the draft funding letter included in the papers, KD explained that it is currently awaiting approval by the Cabinet Secretary for Education. Since ARAC met on 17 March, a revised budget had been included in the papers, which notes additional funding made available from the ALN division. <u>Operational costs</u> Funding is sufficient to cover the planned activity in 2025/26 including: • Recruitment • Communications and marketing • Financial services • Audit • Procurement • Events

	<u>Gwariant ar brosiectau a chomisiynu</u> Cyfanswm y cyllid grant sydd wedi'i ddyrannu i wariant ar brosiectau yw £2,976,500. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gofynion yn y llythyr ariannu drafft a anfonwyd at Adnodd ar 20 Mawrth. Mae'r llythyr hefyd yn cyflwyno meysydd blaenoriaeth penodol y bydd gofyn i Adnodd gyflwyno achos busnes ar eu cyfer er mwyn cael cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer y prosiectau hyn. Yn ogystal, mae Adnodd wedi cyllidebu ar gyfer: • Prosiectau comisiynu presennol sydd eisoes wedi'u rhoi gan Adnodd neu wedi'u trosglwyddo i ni yn ystod blwyddyn ariannol 24/25. • Sefydlu cronfa arloesi i alluogi cydweithio rhwng ymarferwyr er mwyn datblygu syniadau ar gyfer adnoddau newydd. • Gwneud rhagor o waith ymchwil i brofiad defnyddwyr a'r adnoddau sydd ar gael. • Sefydlu grŵp o weithwyr cyswllt i gefnogi gwaith Adnodd, er enghraifft drwy adolygu, comisiynu a sicrhau ansawdd adnoddau. • Sicrhau bod adnoddau cyfrwng Cymraeg presennol yn dal i fod ar gael.	<u>Commissioning and project spend</u> The grant funding allocated to project spend totals £2,976,500. WG officials have identified requirements within the draft funding letter issued to Adnodd on 20 March. The letter also identifies specific areas of priority that Adnodd will be asked to submit a business case to access additional in-year funding for the projects. In addition, Adnodd has budgeted for: • Existing commissioning projects already awarded by Adnodd or novated to us during FY24/25. • Establishing an innovation fund to enable collaboration between practitioners to develop ideas for new resources. • Further research into user experience and the availability of resources. • Establishing a pool of associates to support Adnodd's work, including reviewing, commissioning and quality assuring resources. • Enabling the continued availability of existing Welsh-medium resources.

	Dywedodd EG fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd y bydd cyllid ychwanegol ar gyfer adnoddau TGAU ar gael i Adnodd ar ôl iddo gyflwyno achos busnes.	EG noted that WG officers had provided assurance that additional funding for GCSE resources will be made available to Adnodd on the submission of a business case.
11. Diweddariad gan Blue Stag Update from Blue Stag	Rhoddodd Blue Stag drosolwg o berfformiad a gweithgarwch y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol rhwng 27 Rhagfyr 2024 a 26 Mawrth 2025, gan gymharu'r ffigurau â'r rheini yn y chwarter blaenorol. <u>Y wefan – y camau nesaf</u> • Cofnodion – lle i weld holl gyfarfodydd y Bwrdd ac ARAC. • Comisiynu – lle i gyflenwyr weld y cyfleoedd sydd ar gael a rhai'r gorffennol, ynghyd â digwyddiadau. <u>Y cyfryngau cymdeithasol – y camau nesaf</u> • Rhannu adnoddau sydd wedi'u cyhoeddi er mwyn cynyddu nifer yr ymarferwyr a chyflenwyr sy'n dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol. • Lansio Strategaeth Adnodd – hyrwyddo'r ffaith mai'r sector ei hun sydd wedi llywio'r strategaeth, a hynny er budd y sector. <u>Y gymuned – y camau nesaf</u> • Defnyddio segmentau cynulleidfaoedd i sicrhau bod ymgyrchoedd yn targedu'n well, er mwyn gwella'r modd mae ymgyrchoedd pwysig yn cyrraedd pobl.	Blue Stag provided an overview of the website and social media performance and activity between 27 December 2024 and 26 March 2025 and compared figures to those in the previous quarter. <u>Website – next steps</u> • Minutes function – an area to view all Board and ARAC meetings. • Commissioning – An area for suppliers to view upcoming and past opportunities and events. <u>Social media – next steps</u> • Sharing resources publications to strengthen the social media following amongst practitioners and suppliers. • Adnodd Strategy launch – promoting that it has been shaped by the sector, for the sector. <u>Community – next steps</u> • Utilising audience segments to target campaigns more precisely to increase engagement on key campaigns.

	• Cynyddu maint y rhestr bostio drwy annog y gynulleidfa sy'n cael ei chyrraedd ar y cyfryngau cymdeithasol. Cam Gweithredu: Sicrhau bod y dudalen swyddi ar y wefan yn fyw ar gyfer cylch recriwtio ton 1. Cam Gweithredu: Ymwneud â grwpiau sydd â diddordebau arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. grwpiau'r Cwricwlwm i Gymru a phenaethiaid.	• Grow mailing list by encouraging the engaged social media audiences. Action: Activate the jobs page on the website ready for the wave 1 recruitment cycle. Action: To engage with special interest groups on social media e.g. Curriculum for Wales and headteachers groups.
12. Olyniaeth y Bwrdd Board succession	Dywedodd KD y bydd contractau pump o aelodau'r Bwrdd yn dod i ben ym mis Chwefror 2026. I sicrhau bod Adnodd yn cynnal ei systemau a'i brosesau llywodraethu, rhaid i'r Bwrdd gytuno ar gynllun ar gyfer sicrhau olyniaeth effeithiol ar y Bwrdd. Cyflwynwyd dau opsiwn i'r Bwrdd eu hystyried. Byddai angen i dîm partneriaeth Adnodd a'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r opsiwn y cytunid arno. *Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd ar opsiwn 1 – ymestyn tymhorau holl aelodau'r Bwrdd, gyda hyd y cyfnodau hynny i amrywio.* Cam Gweithredu: Yr aelodau i drafod hyd y contract y bydden nhw'n ei ffafrio â GD yn ystod y cyfarfodydd adolygu perfformiad.	KD noted that the contracts of five Board members will expire in February 2026. To ensure that Adnodd maintains its governance systems and processes, the Board must agree a plan for effective Board succession. Two options were presented for the Board's consideration. The agreed option would be subject to agreement by Adnodd's partnership team and the Public Bodies Unit (PBU) at WG. *Decision: The Board agreed on option 1 – all Board members extended on a staggered basis.* Action: Members to discuss their preferred length of extended contract with GD during the performance management review meetings.

	Cam Gweithredu: Cysylltu â'r Uned Cyrff Cyhoeddus a'r tîm partneriaeth i roi gwybod iddyn nhw am benderfyniad y Bwrdd.	Action: Contact the PBU and the partnership team to notify them of the Board's decision.
13. Unrhyw fusnes arall *AOB*	Yn dilyn ymholiad gan aelod, cytunwyd i adolygu'r polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan ystyried hefyd a ddylid cyfeirio at ymddygiad microymosodol yn yr adran am aflonyddu, ynteu gynnwys adran yn y polisi Bwlio ac Aflonyddu. Cam Gweithredu: Ystyried y lle gorau i gynnwys adran am ymddygiad microymosodol – naill ai yn y polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant neu yn y polisi Bwlio ac Aflonyddu.	Further to a query raised by a member it was agreed to review the Equality, Diversity and Inclusion Policy and to consider including reference to micro-aggression within the Harassment section, or to include a section within the Bullying and Harassment policy. Action: Consider where best to include a section regarding micro-aggression – either within the EDI policy or within the Bullying and Harassment policy.